*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 150 (Cy.20)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) 2003

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *29 Ionawr 2003* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 16BB(1), (3) a (5) a 126(1) a (4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2003 a byddant yn gymwys i Gymru yn unig.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn, oni bai fod y cyd-destun yn mynnu fel arall —

ystyr "Awdurdod Iechyd perthnasol" ("*relevant Health Authority*") yw Awdurdod Iechyd a fu gynt mewn bodolaeth ar gyfer yr ardal y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn cael ei sefydlu ar ei chyfer;

dylid dehongli "gorchymyn BILl" ("*LHB order*") yn unol ag adran 16BA(2) o'r Ddeddf;

ystyr "y dyddiad perthnasol" ("*the relevant date*") yw—

(a) 1 Ebrill 2003; neu

(b) y dyddiad pan gafodd y Bwrdd Iechyd Lleol dan sylw ei sefydlu,

p'un bynnag yw'r diwethaf;

---

(**1**) 1977 p.49; *gweler* adran 128(1) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p.19) ("Deddf 1990"), adran 26(2)(g) ac (i) a chan Ddeddf Iechyd 1999 (p.8) ("Deddf 1999"), Atodlen 4, paragraff 38(2)(b), ar gyfer y diffiniad o "prescribed" a "regulations".
Diwygiwyd adran 126(4) gan Ddeddf 1990, adran 65(2) a Deddf 1999, Atodlen 4, paragraff 37(6).
Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 126(4) o Ddeddf 1977 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 1999, adran 66(5).
Mewnosodwyd adran 16BB gan adran 6 o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (p.17).

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977.

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn, y personau y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gyfrifol amdanynt mewn unrhyw flwyddyn yw'r personau sydd fel arfer yn preswylio yn yr ardal y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi'i sefydlu ar ei chyfer.

(3) Yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddyd y gall y Cynulliad Cenedlaethol ei roi gogyfer ag urhyw achos neu fathau o achosion penodol, os oes amheuaeth ynghylch ymhle y mae'r person fel arfer yn preswylio at ddibenion paragraff (2) —

(a) caiff y person ei drin fel pe bai fel arfer yn preswylio yn y cyfeiriad a roddir ganddo ef i'r person neu gorff sy'n darparu gwasanaethau ar ei gyfer, sef y cyfeiriad y mae'r person fel arfer yn preswylio ynddo;

(b) pan nad yw'r person yn rhoi cyfeiriad o'r fath, caiff ei drin fel pe bai fel arfer yn preswylio yn y cyfeiriad y mae ef yn ei roi i'r person neu'r corff sy'n darparu gwasanaethau ar ei gyfer, sef cyfeiriad mwyaf diweddar y person;

(c) pan nad oes modd penderfynu ar gyfeiriad arferol y person o dan is-baragraff (a) a (b) uchod, caiff y person ei drin fel ei fod fel arfer yn preswylio yn yr ardal y mae'r person yn bresennol ynddi.

**Swyddogaethau i'w harfer gan Fyrddau Iechyd Lleol**

**3.**—(1) Yn ddarostyngedig i unrhyw waharddiadau neu gyfyngiadau mewn gorchymyn BILl mae'r swyddogaethau a bennwyd ym mharagraff (2) i gael eu harfer gan Fwrdd Iechyd Lleol o'r dyddiad perthnasol.

(2) Y swyddogaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yw'r swyddogaethau a oedd yn cael eu harfer gan Awdurdod Iechyd perthnasol am hanner nos ar 31 Mawrth 2003 ac sydd wedi'u trosgwlyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy orchymyn a wnaed yn unol ag adran 27 o Ddeddf Llywodraeth Cymru(**2**) heblaw'r swyddogaethau eraill hynny y cyfeirir atynt yn yr Atodlen;

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

29 Ionawr 2003

(**2**) 1998 p.38.

## YR ATODLEN

Rheoliad 3(2)

### Swyddogaethau eithriedig Awdurdod Iechyd perthnasol

| **Commissioning of Specialist Services for adults and children in respect of:—** | **Description** |
|---|---|
| Blood and bone marrow transplantation | Autografts and Allografts, all phases. |
| Assessment and provision of equipment for people with complex physical disability | Prosthetics and complex orthotics;<br><br>Wheelchair provision including complex postural seating and powered wheelchair controls;<br><br>Communication aids (excluding all forms of hearing aids and cochlear implants);<br><br>Environmental controls and other electronic assistive technology;<br><br>Telecare. |
| Haemophilia and other bleeding disorders | All activity including genetic support. |
| Spinal services | All activity in designated centres in respect of spinal injuries (with damage or threat to spinal cord function);<br><br>Complex spinal deformity surgery and reconstructive surgery (without threat to spinal cord function). |
| Burns services | Services based on referral guidelines in the "Standards and Strategy for Burn Care" |
| Cystic fibrosis | All services including outreach and shared care. |
| Cleft lip and palate services | All relevant services. |
| Allergy | Activity at designated centres only. |
| Medical genetics | Clinical genetics;<br><br>Laboratory genetics;<br><br>Cytogenetics;<br><br>Molecular genetics;<br><br>Metabolic biochemistry;<br><br>Strategic planning for population screening programmes. |
| Pathology | |

| Commissioning of Specialist Services for adults and children in respect of:— | Description |
|---|---|
| **Commissioning of Specialist Services for Adults in respect of:—** | |
| Cancer Services (excluding District General Hospital Oncology) | |
| Complex rehabilitation for brain injury and complex disability | Centres providing a significant proportion of complex rehabilitation excluding district level rehabilitation and local aftercare and rehabilitation. |
| Neurosciences | Neurosurgery;<br><br>Neurology (excluding in-patient stroke);<br><br>Neurorehabilitation;<br><br>Neuropathology;<br><br>Neurophysiology;<br><br>Neuroradiology;<br><br>Neurophthalmology;<br><br>Neurootology. |
| Renal services | Treatment for End Stage Renal Failure;<br><br>Treatment for acute renal failure;<br><br>General nephrology (provided in a main nephrology unit);<br><br>Renal related surgery;<br><br>Dialysis. |
| Home parenteral nutrition | Home care packages and support provided by hospital team. |
| Cardiology and cardiac surgery | Cardiothoracic transplantation (including implantable ventricular assist devices);<br><br>Pulmonary hypertension;<br><br>Cardiac electrophysiology;<br><br>Congenital heart disease;<br><br>Invasive cardiology and cardiac surgery. |
| Infectious diseases | Inpatient activity only. |

| **Commissioning of Specialist Services for adults and children in respect of:—** | **Description** |
|---|---|
| Heptology, hepatobiliary and pancreatic surgery (adult) | Treatment of patients with viral hepatitis;<br><br>Services for patients with acute liver failure and advanced complications of cirrhosis;<br><br>Services for patients with benign and malignant liver tumours and cancer of the intra- and extra-hepatic biliary tree (including pancreas);<br><br>Hepatobiliary and pancreatic surgery. |
| Mental Health | Tertiary Eating Disorder services;<br><br>Neuropsychiatry;<br><br>Forensic Services;<br><br>Mental health services for deaf people;<br><br>Gender Identity disorder;<br><br>Perinatal psychiatric services(Mother and Baby Units);<br><br>Complex and/or Treatment resistant disorders. |
| Women's health | Foetal medicine including prenatal diagnosis and foetal therapy. |
| **Commissioning of Specialist Services for Children in respect of:—** | |
| | Cardiology and cardiothoracic surgery;<br><br>Nephrology, including renal replacement therapy;<br><br>Gastroenology/Hepatology/ Nutritional support;<br><br>Respiratory;<br><br>Oncology;<br><br>Malignant Haematology;<br><br>Non-malignant haematology;<br><br>Neonatal intensive care;<br><br>Paediatric intensive care; |

| Commissioning of Specialist Services for adults and children in respect of:— | Description |
|---|---|
| | Immunological disorder/infectious disease/ allergy; |
| | Paediatric pathology; |
| | Paediatric Neurosciences (Including complex disability and rehabilitation); |
| | Metabolic Disorders; |
| | Paediatric endocrinology and diabetes; |
| | Rheumatology; |
| | Child and adolescent mental health services; |
| | Dermatology; |
| | Paediatric surgery; |
| | Paediatric orthopaedic surgery; |
| | Paediatric ophthalmology; |
| | Paediatric ear, nose and throat surgery; |
| | Paediatric oral and maxillofacial surgery; |
| | Paediatric plastic surgery; |
| | Paediatric urology; |
| | Complex child and adolescent gynaecology, congenital anomalies and intersex. |
| **Other services:—** | |
| | Dermatology (adult); |
| | Pathology; |
| | Cochlear implants (adult); |
| | National Poisons Information Service; |
| | Thoracic surgery; |
| | NHS Direct; |
| | Population screening Services including cervical cytology and breast screening; |
| | Plastic Surgery (all ages) Emergency ambulance services. |

| **Commissioning of Specialist Services for adults and children in respect of:—** | **Description** |
| --- | --- |
| Functions under section 87 of the Water Industry Act 1991 (c. 56) | |
| Emergency Planning services. | |

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu swyddogaethau Byrddau Iechyd Lleol a sefydlwyd ar gyfer pob ardal o Gymru yn unol ag adran 16BA o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (gweler O.S. 2003/148).

Bydd Byrddau Iechyd Lleol yn gyfrifol am arfer swyddogaethau, (yn ddarostyngedig i rai eithriadau penodedig sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd arbenigol, iechyd y cyhoedd a swyddogaethau sydd i'w cyflawni ar lefel ranbarthol), a oedd yn cael eu harfer gan gyn Awdurdodau Iechyd mewn perthynas ag unrhyw ran o'r ardal y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi'i sefydlu ar ei chyfer ac sydd wedi'u trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â gorchymyn a wnaed o dan adran 27 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (Rheoliad 3(2) a'r Atodlen).

Bydd Byrddau Iechyd Lleol yn arfer eu swyddogaethau er budd y personau hynny sydd fel arfer yn preswylio yn eu hardal (Rheoliad 1(2)).